Docusign Envelope ID: FBD220B6-BA01-4EB8-A475-4A038FBB5E9B

**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**ADRAN 16 (A) FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF TRAFFIG FFYRDD (CYFYNGIADAU DROS DRO) 1991**

# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN

# (DIGWYDDIADAU ARBENNIG) (RALI MEWLA GET CONNECTED)

# (RHEOLI TRAFFIG DROS DRO) 2025

Gan y bydd y darnau ffyrdd a ddisgrifir yma yn orlawn ac yn debygol o fod wedi'u rhwystro rhwng **06:00 ac 18:00 ddydd Sul 24 Awst 2025** wrth i **Rali Mewla Get Connected gael ei chynnal.**

Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, yn unol â'i bwerau a roddir gan **Adran 16 (A) o Ddeddf Digwyddiadau Arbennig 1991**, DRWY HYN YN GORCHYMYN, at ddibenion atal rhwystr yn y darnau ffyrdd a ddisgrifir yma bod y rheoliadau canlynol yn cael eu dilyn:

1. Ac eithrio fel y nodir yn Rheoliadau 2 a 3 o'r Gorchymyn hwn, na chaniateir i neb, heblaw ei fod dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd heddwas yn ei lifrai, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu berson awdurdodedig arall, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd deithio neu reidio neu yrru beic pedal ymlaen neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau ffyrdd canlynol:
   *Yr C2167 o bwynt 2.4 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â'r A40 am bellter o 130 metr tua'r gogledd-ddwyrain.*

Mae angen cau'r ffordd er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ystod Rali Mewla Get Connected.

2. Ni fydd ffordd arall.
3. Ni fydd unrhyw beth yn Rheoliad 1 o'r Gorchymyn hwn yn berthnasol ynghylch atal unrhyw berson rhag achosi i unrhyw gerbyd deithio neu aros ar neu yn y darnau ffyrdd y cyfeirir atynt ynddo os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y gwasanaethau tân neu ambiwlans neu gerbyd yng ngwasanaeth yr heddlu mewn unrhyw achos o'r fath sy'n cael ei ddefnyddio yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.
4. Rhaid i unrhyw berson sy'n cael cyfarwyddyd neu ganiatâd gan heddwas yn ei lifrai, i deithio, reidio neu yrru cerbyd ymlaen neu achosi neu ganiatáu i gerbyd aros ar neu yn y darnau ffyrdd a ddisgrifir yn Rheoliad 1 o'r Gorchymyn hwn yn ystod yr oriau dywededig ar y dyddiau dywededig ufuddhau i gyfarwyddiadau'r heddwas ac unrhyw heddwas arall mewn lifrai, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu berson awdurdodedig arall.

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN 19283

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Ar y ddogfen hon ar y 4ydd

o Awst ym mhresenoldeb:




Steven P Murphy
_______________________________

Steven P Murphy

PENNAETH Y GYFRAITH, LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU SIFIL